

Llên natur

Bwletin 127 Medi 2018

gan gynnwys poster
Y Bwrdd Natur i athrawon a rhieni



Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan **Gymdeithas Edward Llwyd**
(Rhif Elusen: 1126027)



Yn y gweithdy ardderchog ym mis Awst a drefnwyd gan Dr Sarah Davies o Brifysgol Aberystwyth yn Archifdy Gwynedd (diolch am eu croeso) mi gawson ni'r fraint o gyflwyno cyfres hir o ddyddiaduron o Aberdaron o ail hanner y 19g. i gasgliad yr Archifdy. Dyddiaduron William Jones, Moelfre, Aberdaron oedd rhain. Dyma Twm Elias (Cadeirydd Prosiect Llên Natur) a'r prif archifydd Lynn Crowther Francis, yn mynd trwy'r moshiwns!

Derbyniodd Brosiect Llên Natur ofal am y dyddiaduron trwy garedigrwydd y teulu, Mrs Wilma Miners a Miss Davida Roberts. Cafodd y dyddiaduron hyn eu trawsgrifio i Dywyddiadur Llên Natur gan Brenda Jones ac fe gewch gefndir am ddatblygiad y prosiect hwn ar y Wicipedia Cymraeg ar dudalen 3.

Y chwilen trwyn gwaed

Chwilen ddu ar ben wal Cefn Castell, Cricieth, 19 Awst
Gwyn Williams



'Ffeiriad Du poera wa'd, neu mi ladda'i dy fam a'th tad'
meddai hen rigwm.

Trowch o ar ei gefn ac mi gewch chi weld!

Be 'da chi'n galw deryn sy'n methu
stopio chwerthin?

Gigl-i-gwt

Dan ni'n gwneud jôcs hefyd yn Llên Natur i chi gael dallt (Wel mae Dewi Prysor yn ei gwneud nhw beth bynnag!)

Dyma bigion o **brif erthygl adran newydd** o'r Wicipedia Cymraeg sy'n cyflwyno cyfres o ddyddiaduron 'amgylcheddol' Cymreig fydd yn nodwedd achlysurol yn y Bwletinau i ddod

Dywedir bod gwerin Cymry ymhlith y mwyaf llythrennog o holl ddinasyddion Ewrop yn eu hiaith eu hunain erbyn y 19g. Ysgolion Sabothol Griffith Jones, Llandowror a dylanwad Thomas Charles oedd bennaf gyfrifol. Canlyniad naturiol hyn oedd creu gwerin llythrennog a diwylliedig Gymreig a pharhau traddodiad barddol aruchel Cymraeg hyd y presennol. Ond anghofir llythrennedd effeithiol tyddynwyr a chrefftwyr cyffredin a allent gofnodi eu gwaith pob dydd mewn dyddiaduron na cyhoeddwyd erioed. Mae'n dra phosib bod y dyddiadur gwerinol Cymraeg ei hiaith y 19g fel *genre* yn unigryw ymysg holl draddodiadau llenyddol ieithoedd llai eu defnydd yn Ewrop. Yn anffodus fe'u collir fesul un ac un dros y blynyddoedd o ddroriau ac o douau llychlyd eu disgynyddion.

Prif ddiben prosiect Tywyddiadur, Llên Natur yw canfod yr hyn sy'n weddill o'r dyddiaduron hyn, eu trawsgrifio gair am air, llythyren wrth llythyren i roi ar gof a chadw nid yn unig natur eu hieithwedd ond hefyd y dystiolaeth fanwl am y tywydd, ffenoleg y cnydau a'r ffordd o fyw a gollwyd. Gall naturioldeb y math yma o ddogfen hefyd gynnig ffenestr i fydolwg yr oesoedd o'r blaen nad ydynt ar gael pob amser yn y ffynonellau 'safonol'. Po fwyaf y bu i ni chwilio am y dyddiaduron hyn, po fwyaf ohonynt ddaeth i'r fei. Ymdrech sydd yma felly i gatalogio'r holl ddyddiaduron a ganfuwyd ac a drawsgrifwyd ar gyfer Tywyddiadur Prosiect Llên Natur, nid y rhai hyn yn unig ond pob dyddiadurwr a gofnodai dystiolaeth gyfoes ar y pryd am ba bynnag gornel fach o Gymru y digwyddai dynnu ei sylw.

Diffinio'r *genre*

Y "Dyddiadur Natur"

Mae'r dyddiadur natur yn *genre* llenyddol yn ei hawl ei hun. Efallai mai'r gyfrol *The Diary of an Edwardian Country Lady* yw'r clasur enwocaf lled diweddar yn hynny o beth. Mae ei phoblogrwydd yn tystio i ddi-ddordeb pobl nid yn unig mewn byd natur ond hefyd mewn hanes, gyda mymryn hefyd o hiraeth am fyd sydd wedi peidio a bod. Dyrchafwyd y clasur arall o'r *genre* hon gan Gilbert White o Selborne swydd Hampshire i statws Llenyddiaeth gan esgor ar ddiwydiant o gyhoeddi *nostalgia* trwy ail-argraffu a chreu detholiadau cyson o'r gwreiddiol ers marw White.

Mae'n nodedig mai *genre* y byd Saesneg ei iaith, a Seisnig ei agwedd yw'r dyddiadur natur fel y cyfryw. Noder mai Saesneg yw iaith y dyddiaduron Cymreig sydd agosaf at y *genre* hon (ee. *The Sporting Diary of CEM Edwards, Dolgellau*, a dyddiaduron natur trylwyr a manwl EHT Bible, o Aberdyfi). Fodd bynnag, o ehangu diffiniad y *genre* "dyddiadur natur" i gynnwys, er enghraifft, dyddiaduron-gwaith ffermwyr bach a mawr Cymry, mi welwn gyfoeth o wybodaeth ffenolegol, meteorolegol, daearyddol ac ieithyddol a fyddai, oni wneir hynny, yn diflannu i lwch silffoedd archifdai y wlad.

Y dyddiadur fel ffynhonnell amgylcheddol

Mae yna o leiaf dri math o ddyddiadur yn y cyswllt hwn:

1. y dyddiadur sydd yn cymryd **trem ymlaen** ar fwriad ac arfaeth unigolyn - sef y dyddiadur apwyntiadau i bob pwrpas
2. y dyddiadur personol sy'n disgrifio **yr hyn ddigwyddodd** i'r sawl a'i ysgrifennodd ar y diwrnod neu yn y cyfnod dan sylw (gall hyn gynnwys barn a myfyrdodau hefyd)
3. **ffuglen** sydd wedi ei ysgrifennu ar ffurf dyddiadur.

Yr ail o'r rhain sydd o fwyaf werth i'r amgylcheddwr ac yn brif destun y gwaith. Mae'r cyntaf hefyd o werth o safbwynt mynegiant o ffordd o fyw. Nid yw'r trydydd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

Ychydig iawn o ffynonellau hanesyddol sy'n rhoi i ni wybodaeth sydd mor uniongyrchol o brofiad y foment na dyddiadur, cyn y bydd unrhyw ddehongli, dadansoddi, barn na rhagfarn ôl-ddoethineb yn dod ar ei gyfyl. Er mwyn cyflawnder dylid crybwyll dau fath arall o ffynhonnell sydd yn cyflawni diben tebyg, sef y llythyr, ac ochr ysgrifenedig y cerydyn post. Yr hyn sy'n gwneud y dyddiadur yn wahanol i rhain hyd yn oed, yw'r ffaith nad yw cofnodion dyddiaduron (gyda rhai eithriadau) wedi ei fwriadu i'w darllen gan berson arall. Mae hyn yn rhoi naws unigryw i'r *genre* - does dim gan y dyddiadurwr i'w 'brofi'!

Yr hyn sydd yn nodweddu'r cofnod dyddiadur ol disgrifiadol yw hanesyn wedi ei ddyddio i ddiwrnod ac wedi ei leoli i le. Felly, yn y cyd-destyn amgylcheddol gall unrhyw nodyn o, er enghraifft, aredig, clywed y gog, adrodd am longdrylliad mewn storm - digwyddiadau cyffredin neu anghyffredin ar y pryd - o'u casglu heddiw, gymryd arwyddocad newydd wrth eu gosod mewn cyd-destun ehangach a chyfochrog a hanesion eraill o'r un dyddiad neu'r un lle. Dyma sail Y Tywyddiadur, rhan o brosiect Llên Natur (Cymdeithas Edward Llwyd).

Y bwriad yn **fersiwn lawn** yr ysgrif hon felly yw rhestru'r dyddiaduron a gasglwyd eisioes yn Y Tywyddiadur fydd yn arwain trwy ddolen i gefndir bywgraffiadol, a chrynhoad o'r cynnwys. Dylid cofio hefyd fod unrhyw ddyddiadur, hyd yn oed y rhai mwyaf annisgwyl yn y cyswllt hwn (ee. dyddiaduron gwleidyddion, beirdd ayb) â'r potential i ymgorffori sylwadau amgylcheddol gwerthfawr (gweler nifer o sylwadau ar y tywydd yn nyddiaduron cynnar y gwleidydd Lloyd George). Oherwydd natur ysgrifenedig cynifer o'r ffynonellau, mae rheidrydd ar y naturiaethwr a'r ecolegydd hanesyddol feithrin sgiliau ieithyddol er mwyn ceisio deall a dehongli union ystyr y geiriau sydd yn caell eu gadael i ni - ym mha bynnag iaith, tafodiaith neu ieithwedd a ddefnyddir. Mae mynych achosion i ddarlunio hyn yn y dyddiaduron fydd yn ymddangos yn y Bwletin neu yn y fersiwn lawn

Pwy sy'n cofio'r corn galw?

Dyma lun o Mrs Lewis, Nantgwynant yn chwythu cragen gonc, neu 'conch'. Daeth y llun i mi drwy garedigrwydd y diweddar Idris Evans o Nantgwynant mewn diwrnod agored yn Hafod y Llan. A oes gennych unrhyw atgofion neu luniau o'r traddodiad o chwythu cregyn o'r math i alw pobl yn ôl i'r tŷ, fel ffôn symudol cyntefig?



Richard Neale

Mae yna un o'r rhain yma, a chrogen oedd fy ngŵr yn ei galw hi. Byddai'n cael ei chwythu i alw teulu at y bwrdd amser cinio etc.. Eglwysbach

Enid Mair Davies



Gwarth a chreulondeb oedd imi ddeifio am un o'r cregyn byw ac iach hyn ym mor y Caribi yn 1979 a'i haddasu i wneud corn! Hefin Williams

Mae na un yng ngardd hen fferm Tanrhiwiau, Cricieth. A dyma lun ohono. Roeddwn i'n meddwl mai addurn oeddynt - ond yn amlwg roedd iddynt

ddefnydd hefyd. Wnes i ddim trio chwythu i hwn gan bod yna bry cop mawr anghynnes yn byw ynddo.

Iwan Williams

Os ydy'r gragen yn gyfa, yna does modd ei chanu. Bechod nad ydw i'n ddigon o ben gyda thechnoleg i roi blast arni i chi!

Gwawr Eilian

Torri trwyn y picyn oedd ei angen i ddatgelu'r twll oedd yn rhan o gylch-droad y gragen a man lle y byddai'r falwen, neu berchennog y gragen, wedi angori. A thrwy feibratio chwyth drwy'r twll hyn fe geid y swm ar ôl cael gwared o'i pherchennog druan, wrth gwrs!

Hefin Williams

Roedd gan fy Nain Fron un fel hyn wrth stepan drws ffrynt ond doeddwn i ddim yn gwybod mai hyn oedd ei bwrpas chwaith.

Non Prys Thwaite

mi oedd gan Nain Olwen un wrth drws ffrynt yn Nantlle hefyd

Dwynwen Roberts

Mi oedd gan fy nain innau un ar garreg y drws hefyd ond wnes i erioed sylwi fod yna ddarn wedi cael ei dorri na sôn fod posib ei chwythu i gael sŵn. Byddwn yn ei dal wrth fy nghlust i wrando ar sŵn y môr.

Margaret Roberts

Mae gan fy rhieni un. Fy hen Daid wedi dod a fo nôl o rhywle tra roedd o ar y môr. Roeddwn i wrth fy modd yn ei chwythu, mae nhw'n gwneud digonedd o swm!!!

Siân Williams

Dwi wedi llwyddo i roi recordiad ar fy nhudalen Llên Natur .

<https://www.facebook.com/100012753700017/videos/515171365584649/?!-897556860060397711>

Gwawr Eilian

Ffermydd yn eu cadw er mwyn eu canu i'r gweithwyr ddeall fod cinio'n barod. Roedd gynnoch chi gloch os oeddach chi'n ffermwr mawr!

William Owen

PWY SY'N GWYBOD BE OEDD HANFOD Y FARCHNAD CREGYN GALW (a'r cregyn eraill o ran hynny)?

Wedi meddwl - mae'n debyg bod y rhai sydd wedi rhoi gwasanaeth fel CYRN GALW yn fwy tebygol o fod wedi ei taflud i'r bin sbwriel ar ôl i'r cyfnod galw gweithwyr o'r caeau fynd heibio gan eu bod yn ddi-bigyn ac felly yn anghyflawn a di-addurn.... efallai?

Mae gen i ddwy sydd yn hen iawn, roeddynt yn eiddo i fy hen nain a oedd yn byw yn Nhrefor ond yn enedigol o Borthdinllaen. Clywais fy mam yn dweud eu bod wedi dod o Ynysoedd Môr y De pan oedd fy hen daid yn gapten llong

Gwenda Williams

Mae un debyg sydd bellach yn Amgueddfa Caerfyrddin, sef Cragen Beca. Mae son amdani yn Nhalog yn y flwyddyn 1839, pan ffrwydrodd terfysgoedd Beca, pan ddaeth yr holl anniddigrwydd cymdeithasol a fu'n corddi'n hir a chythryblu'r werin o'r diwedd i'r wyneb. Y flwyddyn helbulus honno fe dorrodd yr argae. Ac mae'n ddiddorol nodi bod Cragen Beca yn cael ei defnyddio i alw'r terfysgwyr at ei gilydd; pob ffermwr, pob tyddynwr, pob gwas yn yr ardal i'r man cyfarfod yn y pentref. Gwyddys i sicrwydd i rai o gyfarfodydd Beca gael eu cyhoeddi o fewn muriau Bethania. Bu Talog un o'r canolfannau pwysicaf yn y Sir. Mae'n hawdd tybio bod sŵn y gragen i'w glywed yn fynych yn galw'r protestwyr i'r gad.

Mor hwyr â mis Rhagfyr 1910, defnyddiwyd y gragen i nodi dyfodiad ymgeisydd am etholaeth Gorllewin Sir Gâr am gyfarfod yn y capel yn ystod yr Etholiad Cyffredinol.

Peter Cutts

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk



Amser brecwast! 6 Awst - Caerdydd yn yr ardd

Luned Meredydd

Petaech wedi gofyn i mi beth mae mwyalchen yn bwydo i'w chywion mi fuaswn i wedi dweud - o brofiad ac o reswm - trychfilod o wahanol fathau gan gynnwys wrth gwrs pryfed genwair? Dyna ffynhonnell y protfn angenrheidiol mae ifainc o bob math (ond ddim y ddi-eithriad) eu heisiau. Felly oni ddylai'r llun yma ein synnu ychydig? Ai arwydd o'r sychder yn y pridd ar hyn o bryd yw hyn, a phrinder bwyd amgen? Wedi dweud hynny mae'r cyw yn edrych yn ddigon o lanc yndydi - ond faint o frodyr a chworiydd sydd ganddi/o yn dal yn fyw?.

Nantlle, heddiw [8 Awst] 2018 a mis yn ol



Tynnais lun o'r ddwy goeden yma rhyw fis yn ôl yng nghanol y sychdwr mawr a ffostio y lluniau hynny yn fan hyn. Criafolen ag Bedwen Arian ydynt, roedd y ddwy yn edrych yn wahanol iawn, eu dail wedi crino ag yn frown i gyd. I ddweud y gwir mi fysach wedi meddwl bod y ddwy wedi rhoi eu ffidil yn y tô, â wedi marw. Ond mae natur yn wyrthiol yntydi, ar ôl y glaw maent wedi atgyfodi gyda tyfaint newydd o ddail ar eu brigau.

Walter Hanks

Dydi hyn ddim wedi digwydd yn achos coed ynn ifanc yn y Waunfawrsydd a'u brig yn foel o hed er bod y dail isaf i'w gweld yn ddigon iach (23 Awst



Moch coed yn disgyn fel draenogod allan o'r coed 'ma. Tywydd poeth yn Ffrainc yn cael effaith ar y coed. Coed yn clecian yn poethder.

Pinwydden Arfor *Pinus pinaster*. Mae nhw yn defnyddio hwn i goginio cregin gleision ÉCLADE DE MOULES. Dwi yn ardal Le Mathes ddim yn bell o Bordeaux. Efallai mai hwn oedd rheswm am y **twrrw clecian** o'ni yn ei glywed yn y coed?

Mae hi wedi bod yn dymor magu llwyddiannus....



i adar y to yma yng Nghlydach, Cwmtawe. O leiaf 42 ohonynt yn bwydo yn yr ardd bore 'ma (15 Awst 2018) ac mae na nythiad (y trydydd hatshiad eleni) yn cael eu bwydo o hyd mewn cilfach ar ochr y to. Ydy hi'n sefyllfa tebyg mewn ardaloedd eraill yng Nghymru? Mater o amser fydd hi cyn bod ymweliadau y gwalch glas yn cynyddu.

Dewi Lewis

Wedi cael yr un argraff yn union yn Waunfawr

Morghug hedegog eto



MAE'N NHW'N HWYR YN CYRRAEDD LLANDUDNO ELEN! meddai Gareth Pritchard yn groch

Fel arfer, mae'r morgrug hedegog yn cyrraedd llethrau Rhiwledyn yn ystod wythnos olaf Gorffennaf! Ond, eleni, newydd gyrraedd heno, Awst 3ydd, 2018, mae'n nhw. Roedd llai o wylanod a jaccos wedi dod i'w croesawu! Pam tybed?

1. Ydi'r gwylanod yn cael mwy o hufen ia a sglodion eleni?
2. Oes a wnelo'r sychder amlwg ar y cae bod llai o forgrug i'w bwyta gan fod y ddaear yn galetach?

Mewn blynyddoedd a fu, fe ddywedwn i, bod yr 'achlysur' ar ddiwrnod mwy heulog a chynhesach.

Afon Clarach - sychder wedi parhau



14 Awst 2018: Dim dŵr yn afon Clarach i fyny i le mae nant Bow Street yn llifo i mewn iddi.

Jacki Wilmington

Y glaw diweddar ddim 'di gwneud fawr o wahaniaeth felly?

Tybed beth yw hanes yr afon erbyn hyn? Beth am lun arall Jackie o'r union lecyn?

Eirin dryslyd



Gofynwyd i bobl ddweud beth mae nhw'n galw rhain.

Dyma'r atebion:

Yr un chwith buaswn i yn eu galw yn eirin bwlets. ar un dde yn damson's, Pen Llyn, Mynytho **Catherine Pritchard**

Chwith - eirin perthi, dde - eirin Mair Sir Fon **Dafydd Williams**
Y run peth a Dafydd, Gwalchmai. **Oswyn Williams**

Chwith - Eirin surion bach neu Eirin tagu. Dde - eirin Mair (Sir Fon)

Eirin tagu ar y chwith. Dwn'im be 'dy'r lleill. Eglwysbach.

Enid Mair Davies

Eirin bach ar y chwith a damsons ar y dde. Eirin bach yw'r melysaf a'r gorau i'w bwyta yn syth o'r goeden ac i wneud jam neu stiwl.

Hefin Williams

Eirin perthi a bwllis. Ynys Môn

Sioned Williams



Yn y llun yr un ar y chwith i'r darn 5c fel sydd iw weld ar y chwith gan Llên Natur. Ac ar y dde i'r 5c hon yw eirin tagu gen i yma yn Mynytho.

Catherine Pritchard

Gwiwer ddu?



Dyma Kara Stanford tra ar wyliau ger Llyn Silkeborg, Denmarc ym mis Awst:

"Heard scrabbling, then saw two of these chasing each other round a tree. When I went to look, they stopped dead still. Eventually, this ran up the tree, made some kind of warbly shouting then turned and looked directly at me. Eventually I walked off as it kept staring at me and I have no idea if these things attack. They are both back at it again, chasing each other round a tree trunk."


Pan yn fy arddegau ddechrau'r 1960au roedd WIWEROD COCHION (coch iawn) yn gyfarwydd o hyd yn Waunfawr (cyn i'r llwydion gyrraedd). Mi ymwelais ar y pryd â Schwartzwält yn yr Almaen (y Fforest Ddu) a gweld wiwerod tywyll iawn fel hyn yn gyffredin a mynd adref efo'r syniad bod wiwerod cochion y cyfandir yn llawer duach na rhai ni.

DB

Mae wiwerod coch y cyfandir yn mwy dywyll na'r rhai yma, yn enwedig mwy i'r dwyrain. Gwelir hyn hefyd yn wiwerod coch yn Formby ger Lerpwl, sy'n dod yn wreiddiol o'r cyfandir (yn rhanol, o leia). Mae mwyafrif wiwerod coch yn Siberia yn rhai tywyll neu yn ddu. Mae cynffonau a clustiau wiwerod coch cynhenid Prydeinig yn troi'n wyn yn yr haf, ac fe welir hyn yn wiwerod coch canolbarth Cymru. Mae nifer o boblogaethau wiwerod coch Prydeinig wedi eu cyflwyno o'r cyfandir yn y ganrif neu 2 ddiwetha, gan cynnwys rhain rhan helaeth o'r boblogaeth ar Ynys Môn.

Huw Denman

Teithiau milltir sgwar Gwyn Williams (1)



Lluniau:
Moel Llyfnant a grifft ser
chwith). Mae hwn yn
gynnar i rifft ser (sef, yn ol
pob gwybodaeth, y grifft
heb wyau mewn llyffant
sydd wedi cael ei larpio gan
greyr neu rhywbeth tebyg).
Gweler tudalen 2 o **Fwletin
11** am erthygl gan Steffan
ab Owain. Mwy i ddilyn...



Llugaes y plant trwy gorsydd ac i gopa Moel Llyfnant
heddiw. Gwelais ddigonnedd o lugaeron ac hefyd y
tormaeln llydandrod *Saxifraga hypnoides* ar ochr
Arenig Fawr. Llugaeron *Vacc oxycoccus* (saeth glas).

“Dangos fod y camera yn medru dweud clwydda”



Oddiwrth Llion trwy law caredig Galwad Cynnar:
“Yn fy llandir [ym Mhenrhosgarnedd, Bangor] mae deryn, gyda'i sêr o
lygaid syn mae'n gorwedd dan hedd fy nho. Ai hebog basiodd heibio?”

Tybiais i ddechrau mai cudyll bach (*merlin*) ifanc oedd o - sy'n eitha difyr yn
fy marn i, o gofio'r lleoliad ac amser y flwyddyn; mae'n
aderyn yr ucheldiroedd anial yn yr haf a gwastadeddau
arfordirol yn y gaeaf. Tybed beth oedd o'n ei wneud ym
Mhenrhosgarnedd?... OND ar ôl dadlau a thrafod a holi
hwn a'r llall dyma arbenigwr y *Bird Fair* yn Nottingham
yn dweud **mai rhyw fath o hybrid a hebog saker/lanner
yw ac nid aderyn cynhenid o gwbl.**

Ond ar ôl i Kelvin Jones o'r BTO fynd i Fangor i nol y
corff dyma ddarganfod mai DIM OND gwalch glas oedd
o wedi'r cwbl. Dyma fo.. a meddai Kelvin...

Dangos fod y camera yn medru dweud clwydda



Gloynnod a gwyfynod heulwen yr haf



Gwyn mawr



Gwyn bach



Gwyn gweithennau gwyrdion



Melyn y rhafnwydd



Gweirloyyn cleisiog



Gweirloyyn brych



Copor bach



Gweirloyyn y perthi



Gweirloyyn y ddol



Gweirloyyn y glaw



Mantell paun



Mantell garpiog



Mantell dramor



Trilliw bach



Mantell goch



Mantell paun



Glesyn cyffredin



Glesyn y celyn



Gem fforch arian



Bwrned chwe smotyn



Ewch allan i le
heulog i weld
faint o'r rhain
allwch chwï
gyfri!